

Newyddlen Blog Canolfan San Silyn

Cefnogi addysgu a dysgu yn Wrecsam



Annwyl Gydweithwyr,

Credwn ei bod yn deg dweud mai hon, i'r rhan fwyaf ohonom, fu'r flwyddyn fwyaf heriol yn ein gyrfaoedd dysgu hyd yma. Rydych wedi gweithio'n ddiplino a gyda thosturi i wneud yn siŵr fod eich dysgwyr wedi gwneud cynnydd a chyflawni eu potensial, ac nad yw eu hiechyd a'u lles wedi dioddef wrth wneud hynny. Rydych yn anhygoel a diolch i chi am ddyfalbarhau.

Fel yr addawyd, dyma newyddlen yr haf sy'n tynnu sylw at rai o uchafbwyntiau diweddaraf ein blog ar-lein, rhag ofn i chi eu colli y tymor hwn.

Mae'n llawn dop o wybodaeth sy'n berthnasol i AG a CGM sy'n bwysig yn ein barn ni, yn cynnwys cyfeiriadau at adnoddau, cyfleoedd dysgu proffesiynol ac ymgynghoriadau diweddar a rhai sy'n dal i fod ar agor. Gobeithio y bydd y Newyddlen hon o ddefnydd i chi, yn ychwanegol at yr hyn y mae Canolfan San Silyn eisoes wedi'i ddarparu y tymor hwn, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi yn y flwyddyn academaidd nesaf.

Gan ddymuno gwyliau haf hapus a haeddiannol i chi.

Libby a Tania

ARCHWILIO CYNEFIN: CANOLFAN SAN SILYN YN CYNNIG CYFLE DYSGU PROFFESIYNOL

Ar 7 Gorffennaf 2021, cyfarfu grŵp o athrawon arbenigol AG ac arweinwyr o Wrecsam a Sir y Fflint i archwilio *cynefin* yn y cwricwlwm newydd i Gymru. Nodau'r sesiwn oedd: i'ch helpu i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd ... (*Blog: 14 Gorffennaf 2021*)

Darllenwch ragor ...

<https://stgilescentre.org/cy/2021/07/14/exploring-cynefin-the-st-giles-centre-offers-professional-learning-opportunity/>



YMGYNGHORIAD AR GANLLAWIAU CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG (CGM): YMATEB CYSAG WRECSAM

Diolch i bawb ohonoch a rannodd eich barn gyda ni am ganllawiau drafft ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. (*Blog: 12 Gorffennaf 2021*)

Darllenwch ragor ...

<https://stgilescentre.org/cy/2021/07/12/consultation-for-curriculum-for-wales-religion-values-and-ethics-rve-guidance-wrexham-sacre-response/>

HERIO MATERION CREFYDDOL RHIFYN 18 (FERSIWN GYMRAEG) NEWYDD EI GYHOEDDI

Mae Rhifyn 18 (fersiwn Gymraeg) o'r cyfnodolyn Herio Materion Crefyddol sy'n cefnogi dysgwyr ac athrawon UG / Safon Uwch newydd ei gyhoeddi. (*Blog: 30 Mehefin 2021*)

Darllenwch ragor ...


<https://stgilescentre.org/cy/2021/06/30/welsh-version-of-challenging-religious-issues-18-now-published/>

RHIFYN NEWYDD O GYFNODOLYN ASTUDIAETHAU CREFYDDOL SAFON UWCH AR GAEL: HERIO MATERION CREFYDDOL

Mae Rhifyn 18 o'r cyfnodolyn lefel A mynediad agored, *Herio Materion Crefyddol*, ar gael bellach i'w lawrlwytho o wefan Canolfan San Silyn. Mae'r erthyglau'n trafod: gweinidogaeth gyhoeddus Iesu; beirniadaeth Hume o'r ddadl ddyluniad; effaith Covid-19 ar Gristnogaeth yn y DU. (*Blog: 7 Mehefin 2021*)

Darllenwch ragor ...

<https://stgilescentre.org/cy/2021/06/07/new-issue-of-a-level-religious-studies-journal-now-available-challenging-religious-issues/>




PAM FOD AG (CGM) YN BERTNASOL DRWY GYDOL EIN BYWYDAU: GWEMINAR NEWYDD I DDYSGWYR 14- I 16- MLWYDD OED

Mae'n bleser gan Ganolfan San Silyn gynnig gweminar newydd sy'n ysgogi meddwl i athrawon a dysgwyr a luniwyd i hybu trafodaeth a diddordeb mewn gwersi AG (CGM) statudol. Crëwyd y gweminar i Ganolfan San Silyn gan Dr Greg Baker ac mae'n rhan o ... (*Blog: 27 Mai 2021*)

Darllenwch ragor ...

<https://stgilescentre.org/cy/2021/05/27/why-re-reve-is-relevant-throughout-our-lives-new-webinar-for-14-to-16-year-old-learners/>



YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR GANLLAWIAU CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG - AR AGOR



Dydd Gwener, 21 Mai 2021, agorodd ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar ganllawiau drafft Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM). Caiff pawb sydd â diddordeb mewn Addysg Grefyddol (a ailenwyd yn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg) eu hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a chyflwyno'u hymatebion. *(Blog: 21 Mai 2021)*

Darllenwch ragor ...

<https://stgilescentre.org/cy/2021/05/21/welsh-government-consultation-on-guidance-for-religion-values-and-ethics-now-open/>

DATHLU CYFIEITHWYR Y BEIBL CYMRAEG: GWASANAETH ARBENNIG I YSGOLION

Mae Esgobaeth Llanelwy wedi rhyddhau gwasanaeth dwyieithog arbennig i ysgolion i ddathlu 400 mlwyddiant cyfieithu'r Beibl i Gymraeg, camp a gafodd effaith mor arwyddocaol ar gymdeithas a diwylliant yng Nghymru. Mae'r ffilm yn gwneud nifer o gysylltiadau naturiol â manau lleol (cynefin) *(Blog: 17 Mai 2021)*

Darllenwch ragor...

<https://stgilescentre.org/cy/2021/05/17/celebrating-the-welsh-bible-translators-a-special-service-for-schools/>

MWY O WEMINARAU I DDYSGWYR I GEFNOGI ASTUDIAETHAU CREFYDDOL TGAU A SAFON UWCH!

Gall dysgwyr ac athrawon yn Wrecsam gyrchu set arall o ddeunydd gweminar wedi'i recordio, o dan arweiniad Dr Greg Baker a ddarperir gan Ganolfan San Silyn. (*Blog: 4 Mai 2021*)

Darllenwch ragor...

<https://stgilescentre.org/cy/2021/05/04/more-learner-webinars-to-support-gcse-and-a-level-religious-studies/>

YMATEB CYSAG WRECSAM: YMGYNGHORIAD CYMWYSTERAU CYMRU

Diolch i bawb ohonoch a rannodd eich barn gyda ni am ddyfodol cymwysterau yng Nghymru. Mae'ch llais yn bwysig ac mae Canolfan San Silyn wedi ymrwymo i rannu profiadau a safbwyntiau Wrecsam ar lefelau lleol a chenedlaethol. (*Blog: 4 Mai 2021*)

Darllenwch ragor...

<https://stgilescentre.org/cy/2021/05/04/wrexham-sacre-response-qualifications-wales-consultation/>
